| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO** |
| **DYDDIAD** | **25 Gorffennaf, 2016.** |
| **TEITL** | **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**<br>**Cais i gofrestru llwybr troed rhwng Haulfryn a Phen y Caerau, Garn Fadryn, Cymuned Tudweiliog.** |
| **PWRPAS** | **Ystyried a ddylai'r Awdurdod lunio Gorchymyn Diwygio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Y dylai Cyngor Gwynedd lunio Gorchymyn Diwygio dan Adran 53(3)(c)(i), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i gofrestru'r llwybr a hawlir ar Fap Swyddogol Hawliau Tramwy Cyhoeddus.** |
| **AWDUR** | **Dafydd Williams**<br>**Pennaeth yr Adran Rheoleiddio** |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at gais i gofrestru llwybr troed ger Garn Fadryn yng Nghymuned Tudweiliog.

1.2 Gwneir y cais ar y sail fod y cyhoedd wedi cerdded ar y llwybr hwn yn ddirwystr ac yn gyson fel petai ganddynt yr hawl (hynny yw, heb ganiatâd y tirfeddiannwr) dros gyfnod o fwy nag ugain mlynedd.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Ym mis Hydref 2014, derbyniwyd cais gan y Cynghorydd Simon Glyn dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, i gofrestru llwybr troed o Haulfryn i Ben y Caerau ar Fap Swyddogol Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

2.2 Mae'r llwybr a hawlir yn cychwyn o'r ffordd ddi-ddosbarth yn Haulfryn ac yn mynd ymlaen drwy giât cae i gyfeiriad gogledd-orllewinol ar hyd trac diffiniedig, heibio Pen y Caerau ac yna drwy giât i gerddwyr ble mae'n cysylltu â llwybr troed rhif 20 yng Nghymuned Buan.

2.3. Dangosir y llwybr troed a hawlir rhwng pwyntiau A-B-C ar y cynllun a ddarparwyd yn Atodiad 1.

## 3.0 CEFNDIR CYFREITHIOL

3.1 Gellir creu priffordd drwy ymroddiad gan y tirfeddiannwr i ganiatáu'r cyhoedd groesi ei dir ynghyd â'r cyhoedd yn derbyn y llwybr. Gellir mynegi'r fath ymrwymiad drwy ychydig o gamau gweithredu clir; neu ragdybio, naill ai o ganlyniad i gyfnod o'r cyhoedd yn ei ddefnyddio'n

ddiddadl fel petai ganddynt yr hawl neu dystiolaeth ddogfennol ar ryw adeg yn y gorffennol yn cofnodi'r statws a gafodd ei briodoli ar y pryd i'r ffordd dan sylw.

3.2 Mae Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981") yn gosod dyletswydd ar Gyngor Gwynedd fel "awdurdod arolygu" i adolygu'r Map a'r Datganiad Swyddogol yn barhaus.

3.3 Mae Adran 53(3)(c)(i) Deddf 1981 yn nodi y dylid llunio Gorchymyn ar ôl darganfod tystiolaeth, o'i ystyried gyda phob tystiolaeth berthnasol arall, sy'n dangos "*bod hawl tramwy na ddangosir ar y map a'r datganiad yn bodoli neu yr honnir yn rhesymol ei fod yn bodoli dros dir yn yr ardal mae'r map yn cyfeirio ato...".*

3.4 Os mai tystiolaeth o ddefnydd yw'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais, gweithredir Adran 31(1) Deddf Priffyrdd 1980:-

*"Pan fydd ffordd...wedi cael ei mwynhau gan y cyhoedd fel petai hawl yn bodoli a heb ymyrraeth am gyfnod llawn o ugain mlynedd, pennir bod y ffordd honno wedi'i neilltuo fel priffordd oni bai bod yna dystiolaeth ddigonol nad oedd bwriad i'w neilltuo yn ystod y cyfnod hwnnw."*

3.5 Noda Adran 31(2) "*y cyfrifir 20 mlynedd yn ôl-weithredol o'r dyddiad pan ystyriwyd hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r ffordd.*"

## 4.0 PERCHNOGAETH TIR

4.1 Cyflwynwyd y Dystysgrif Cyflwyno ofynnol gan yr ymgeisydd yn cadarnhau bod rhybudd am y cais wedi'i anfon at bob tirfeddiannwr fyddai'n cael ei effeithio.

4.2 Mae'r rhan o'r llwybr a hawlir rhwng pwyntiau A a B yn effeithio tir sy'n eiddo ar hyn o bryd i Mr a Mrs Russell o Lanbedrog.

4.3 Mae'r rhan o'r tir rhwng B a C yn eiddo ar hyn o bryd i Mr Ian Wilson, Pen y Caerau, Garn Fadryn.

## 5.0 TYSTIOLAETH I GEFNOGI'R CAIS

### Tystiolaeth o ddefnydd

5.1 Cefnogir y cais gan 12 Datganiad Tystiolaeth yn dangos tystiolaeth o ddefnydd cyhoeddus rhwng 1940 a 2014. Mae'r siart bar a ddarperir yn Atodiad 2 yn crynhoi'r defnydd honedig fel y nodir yn y Datganiadau.

5.2 Dan Adran 31 Deddf Priffyrdd 1980, pan fydd llwybr wedi cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd fel petai ganddynt yr hawl a heb ymyrraeth

am gyfnod llawn o ugain mlynedd heb unrhyw gamau gweithredu clir gan y tirfeddiannwr i atal hynny, yna honnir bod y llwybr wedi'i neilltuo fel priffordd.

5.3 Cyfrifir y cyfnod o 20 mlynedd yn ôl-weithredol o'r amser pan ddaeth hawl y cyhoedd i ddefnyddio’r llwybr dan amheuaeth am y tro cyntaf.

5.4 Wrth archwilio'r dystiolaeth, ymddengys fod hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr wedi cael ei herio am y tro cyntaf ym mis Medi 2014. Cadarnheir y dyddiad penodol hwn gan 11 o bobl sy'n cefnogi'r cais.

5.5 Mae'r holl ddefnyddwyr sy'n cefnogi'r cais yn nodi eu bod wedi defnyddio'r llwybr am gyfnod hwy nac ugain mlynedd.

5.6 O'r 12 defnyddiwr, mae chwech yn honni eu bod yn defnyddio'r llwybr "bob mis", pump yn honni eu bod yn ei ddefnyddio "bob wythnos" ac un person yn honni ei fod yn ei ddefnyddio bob dydd.

5.7 Mae'r defnyddwyr yn honni eu bod wedi defnyddio'r llwybr er dibenion hamdden.

5.8 Nid oedd yr un o'r defnyddwyr yn adrodd eu bod â chysylltiadau â'r tirfeddiannwr.

5.9 Ym mis Mehefin 2016, cynhaliwyd cyfweliadau a darparwyd datganiadau tyst gan ddau berson yn cefnogi'r llwybr a hawlir. Darperir y datganiadau tyst hyn yn Atodiadau 3 a 4 yr adroddiad hwn.

**Tystiolaeth arall yn cefnogi'r cais**

5.10 Wrth ymgynghori â hwy yn ystod yr ymchwiliad, cadarnhaodd Mr a Mrs Russell (sy'n berchen ar adran A - B ar hyn o bryd) eu bod yn cefnogi'r cais i gofrestru'r llwybr a hawlir fel hawl tramwy cyhoeddus.

5.11 Cafodd Mrs Russell ei chyfweld ynglŷn â defnydd o'r llwybr a darparodd ddatganiad ysgrifenedig i'r Cyngor (Atodiad 5) yn cadarnhau'r isod:-

- mae'r tir wedi bod yn eiddo i Mr a Mrs Russell ers 2005.
- ni wnaed unrhyw ymgais yn ystod y cyfnod hwnnw i atal y cyhoedd rhag defnyddio'r llwybr.
- Roedd Mrs Russell yn meddwl bod y llwybr yn gyhoeddus.

5.12 Cysylltwyd â Mrs Gwen Williams, Bryn Gwynt, Garn Fadryn sy'n cadarnhau bod ei diweddar ŵr, rhwng 1982 a 2002, wedi bod yn berchen ar ddarn o dir sy'n cael ei effeithio gan y cais (A-B).

5.13 Yn ei datganiad tyst (Atodiad 6), mae Mrs Williams hefyd yn cadarnhau'r pwyntiau a ganlyn:-

- Gwnaed defnydd rheolaidd o'r llwybr gan bobl leol ac ymwelwyr i'r ardal.
- Ni wnaed unrhyw ymgais gan Mr + Mrs Williams i atal y cyhoedd rhag defnyddio'r llwybr.
- Ni ofynnodd aelodau o’r cyhoedd am ganiatâd i ddefnyddio'r llwybr erioed.
- Mae Mrs Williams yn meddwl bod y llwybr yn hawl tramwy cyhoeddus.

## 6.0 GWRTHWYNEBIADAU I'R CAIS

6.1 Mewn llythyr dyddiedig 2 Mehefin 2016, cadarnhaodd Mr Ian Wilson a Ms Gillian Taylor, Pen y Caerau eu gwrthwynebiad i'r cais. Darperir copi o’r llythyr hwn yn Atodiad 7; dalier sylw bod adrannau penodol wedi'u golygu oherwydd honiadau a wnaed yn erbyn trydydd partïon, a phennir bod honiadau o'r fath yn amherthnasol i’r ddadl o ran hir ddefnydd.

6.2 Gellir crynhoi’r llythyr fel a ganlyn:-

- Cafodd yr eiddo, Pen y Caerau ei brynu yn 2008. Nid oedd trawsgludiad yr eiddo yn dangos unrhyw dystiolaeth bod yna hawl tramwy yn bodoli.
- Mae gwaith ailwampio mawr yn digwydd yn yr eiddo sy'n achosi materion iechyd a diogelwch.
- Nodir y bydd y llwybr yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch yr eiddo.
- Honnir bod caniatâd wedi'i roi i ambell unigolyn ddefnyddio'r llwybr drwy Ben y Caerau.
- Honnir bod y llwybr wedi cael ei ddefnyddio yn ddistaw bach.
- Nodir bod rhai o'r datganiadau gan aelodau o'r un teulu, oddeutu 7 neu 8 aelwyd, gyda phob un ohonynt (yn ôl y sôn) yn adnabod ei gilydd.
- Nodir bod pawb sy'n gwneud y cais, ac eithrio dau, yn byw o fewn hanner milltir i Ben y Caerau.
- Honnir bod yna anghysondebau o ran yr union ddyddiad pan wrthodwyd mynediad i'r rhai sy'n gwneud y cais.
- Honnir bod nifer ansylweddol o bobl wedi cael eu gweld yn cerdded ar hyd y llwybr.
- Nid oes unrhyw arwyddion llwybr cyhoeddus.

6.2 Cefnogir datganiad gwrthwynebu Mr Wilson a Ms Taylor gan y dogfennau a ganlyn:

- Naw datganiad tyst (safonol) gan bobl yn dadlau am gywirdeb y Datganiadau Tystiolaeth sy'n cefnogi'r cais ac yn ardystio nad oes unrhyw hawl tramwy cyhoeddus fel yr honnir (Atodiad 8).

- Llythyr gan unigolyn yn dadlau nad yw wedi gweld unrhyw un yn defnyddio'r llwybr cyhoeddus (Atodiad 9). Mae’r unigolyn hefyd yn

credu y byddai llwybr cyhoeddus yn cael effaith andwyol ar fwynhad a gwerth yr eiddo.

- Nifer o ddogfennau hanesyddol yn cynnwys fersiynau amrywiol o'r Cynlluniau Arolwg Ordnans 6" i'r filltir a 25" i'r filltir a Map y Degwm. Mae'r gwrthwynebwyr yn honni nad yw'r dogfennau hyn yn dangos tystiolaeth o hawl tramwy.

6.3 Llythyr gan unigolyn arall (Atodiad 10) yn nodi nad yw wedi cerdded drwy ardd Pen y Caerau erioed er ei fod yn honni fod ganddo wybodaeth helaeth am y rhwydwaith hawliau tramwy lleol. Mae’r unigolyn yn mynnu nad yw'r llwybr wedi'i gofnodi ar y Map Swyddogol ac na amlygodd Chwiliad Lleol fodolaeth llwybr cyhoeddus yn yr eiddo.

## 7.0 SYLWADAU AR Y GWRTHWYNEBIADAU

7.1 Mewn ymateb i lythyr Mr Wilson a Ms Taylor, dyddiedig 2 Mehefin, 2016, mae'r Cyngor yn gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- Gellir honni na ddangosodd y trawsgludiad hawl tramwy cyhoeddus oherwydd na ddangosir y llwybr ar Fap Swyddogol yr ardal. Petai wedi'i ddangos, ni fyddai'r sawl sy'n gwneud y cais yn gorfod ymgeisio am Orchymyn Diwygio'r Map Swyddogol.
- Nid yw materion iechyd a diogelwch yn ffactorau a ellir eu hystyried dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae a wnelo'r holl broses â phennu, yn seiliedig ar debygolrwydd, p'un a oes hawliau tramwy cyhoeddus mewn gwirionedd yn bodoli ai peidio.
- Ni cheir unrhyw dystiolaeth yn awgrymu bod caniatâd wedi'i roi gan berchennog Pen y Caerau i unigolion penodol ddefnyddio'r llwybr. Yn wir, mae'r datganiadau tyst a ddarparwyd i'r Cyngor (fel y gwelir yn Atodiadau 3, 4, 5 a 6) yn dangos bod yr hawlwyr yn meddwl bod y llwybr yn hawl tramwy cyhoeddus. Rhaid nodi hefyd bod tystiolaeth defnyddwyr yn mynd yn ôl nifer fawr o flynyddoedd cyn perchnogaeth Mr Wilson o'r eiddo.
- Ni cheir unrhyw dystiolaeth benodol yn awgrymu bod y llwybr wedi cael ei ddefnyddio'n ddistaw bach. Mae’r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais yn dangos bod y cyhoedd wedi bod yn defnyddio'r llwybr a hawlir yn ddigon aml ac mewn niferoedd digon mawr i ddangos bod y llwybr wedi cael ei ddefnyddio mewn modd agored gan y cyhoedd.
- Ni cheir unrhyw dystiolaeth benodol yn awgrymu bod cydgynllwynio posib rhwng tystion. Fodd bynnag, nodir bod defnyddwyr yn dod o'r gymuned leol. Fodd bynnag, yn R v (Trigolion) Southampton 1887, dyfarnodd y Llys "*user by the public must not be taken in its widest sense ... for it is common knowledge that in many cases only the local residents ever use a particular road or bridge.*" Felly, mae'r Cyngor yn fodlon bod y defnydd wedi bod yn "by the public" fel sy'n ofynnol gan adran 31.
- Ceir tystiolaeth gadarn i awgrymu bod mynediad wedi'i wrthod i'r cyhoedd am y tro cyntaf ym mis Medi 2014 er y byddai'n anymarferol

sefydlu'r union ddyddiad. Mae’n werth nodi nad yw'r gwrthwynebwyr yn darparu tystiolaeth glir i ddangos eu bod wedi herio'r cyhoedd cyn y dyddiad hwn. Felly, yn absenoldeb tystiolaeth o'r fath, y cyfnod o ddefnydd i'w ystyried dan Adran 31 yw Medi 1994-Medi 2014.

- Mae'r dystiolaeth o ddefnydd a ddarperir gan y 12 Datganiad Tystiolaeth yn ddigonol o ran amlder, hyd a maint i ddangos defnydd cyhoeddus sylweddol o'r llwybr a hawlir.
- Daethpwyd o hyd i ffotograff (a gafodd ei dynnu gan swyddog o'r Cyngor oddeutu 2010) yn dangos arwydd cyfeirbwynt llwybr troed sy'n ymddangos fel petai'n cyfeirio cerddwyr drwy'r giât cerddwyr ym mhwynt C tuag at Ben y Caerau (Atodiad 11). Nid yw'n glir pryd gafodd y postyn marcio hwn ei osod a chan bwy, er y gellir cadarnhau fod yr arwydd wedi cael ei dynnu bellach.
- Mae'r naw ffurflen tystion safonol a ddarparwyd yn dangos bod y gwrthwynebwyr wedi defnyddio llwybr gwahanol i'r llwybr a hawlir. Y pwynt perthnasol yw bod y dystiolaeth o ddefnydd a'r datganiadau tyst yn dangos fod y llwybr a hawlir wedi'i ddefnyddio'n helaeth sy'n ddigon i arwain at ragdybiaeth ei fod wedi'i neilltuo dan adran 31 Deddf Priffyrdd 1980.
- Mewn ymateb i’r llythyr a roddir yn Atodiad 9, mae tystiolaeth y defnyddwyr yn dangos defnydd di-dor o'r llwybr a hawlir rhwng 1940 a 2014 gyda 7 allan o 12 defnyddiwr yn honni eu bod wedi'i ddefnyddio ers dros 40 mlynedd. Nid yw effeithiau ar werth a mwynhad eiddo yn ystyriaethau perthnasol dan y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r weithdrefn hon.
- Mae'r mapiau Arolwg Ordnans a ddarparwyd yn dystiolaeth ddefnyddiol wrth ddangos *bodolaeth ffisegol* y llwybr a hawlir. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang bod mapiau o'r fath yn llai defnyddiol wrth bennu gwir statws y llwybrau a ddangosir. Caiff y farn hon ei chefnogi gan y llysoedd (e.e. Twrnai Gwladol v Antrobus [1905]).
- Mae a wnelo dogfennau'r Degwm ag *adnabod tir oedd yn ymwneud â'r degwm* yn unig ac nid oedd bwriad i fapiau o'r fath sefydlu neu gofnodi hawliau tramwy.
- Mewn ymateb i’r llythyr a roddir yn Atodiad 10, gellir honni na ddatgelwyd hawl tramwy cyhoeddus gan y Chwiliad Lleol gan nad yw'r llwybr i'w weld ar Fap Swyddogol yr ardal.

## 8.0 YMGYNGHORIAD

8.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gofynnol gyda'r sefydliadau penodedig ac mae'r ymatebion a dderbyniwyd fel a ganlyn:-

**Cyngor Cymuned Tudweiliog**

8.2 Mae Cyngor Cymuned Tudweiliog wedi cadarnhau bod y llwybr wedi'i ddefnyddio gan breswylwyr lleol am nifer o flynyddoedd ac mae'n cefnogi ail-agor y llwybr yn unfrydol.

**Cymdeithas y Cerddwyr**

8.3 Nododd Ysgrifennydd Ardal Cymdeithas y Cerddwyr bod y llwybr yn cael cryn ddefnydd ac na fyddai gan y "Cerddwyr" unrhyw wrthwynebiad i gofrestru'r llwybr.

## 9.0 CASGLIADAU

9.1 Ystyrir bod y dystiolaeth o ddefnydd yn bodloni gofynion adran 31 Deddf Priffyrdd 1980.

9.2 Er bod defnydd di-dor am 20 mlynedd, fel petai hawl, gan y cyhoedd yn sefydlu rhagdybiaeth bod y llwybr wedi'i neilltuo i'r cyhoedd, gellir croes ddweud hynny gyda thystiolaeth sy'n dangos nad oedd bwriad gan y tirfeddiannwr neilltuo hawliau cyhoeddus yn ystod yr amser hwnnw.

9.3 Byddai rhaid dangos tystiolaeth bod torri ar ddefnydd y cyhoedd o'r llwybr wedi'i wneud yn glir ac effeithiol er mwyn atal defnydd cyhoeddus.

9.4 Ymddengys na chafodd y defnyddwyr eu herio hyd nes y cwestiynwyd yr hawl i ddefnyddio'r llwybr ym mis Medi 2014 ar ôl rhwystro mynediad drwy ddwy giât a leolir ar y llwybr a hawlir. Cyn y dyddiad hwn, ymddengys nad oedd unrhyw dystiolaeth glir o unrhyw gamau gweithredu amlwg yn cael eu cymryd gan y tirfeddianwyr i atal y cyhoedd rhag cerdded ar y llwybr a hawlir.

9.5 Caiff y dystiolaeth o ddefnydd ei gadarnhau gan y datganiadau tyst a ddarperir gan un o'r tirfeddianwyr presennol, Mr + Mrs Russell a hefyd Mrs Williams, gwraig y tirfeddiannwr blaenorol.

9.6 Ar ôl archwilio'r holl dystiolaeth,ystyrir ei bod yn rhesymol honni, ar sail tebygolrwydd, bod hawl tramwy cyhoeddus i gerddwyr yn bodoli ar hyd y llwybr a hawlir.

9.7 Pan fo tystiolaeth o'r fath yn dod i'r wyneb, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Gorchymyn Diwygio Map Swyddogol.

## 10.0 ARGYMHELLIAD

10.1 Y dylai Cyngor Gwynedd lunio Gorchymyn Diwygio dan adran 53(3)(c)(i), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i gofrestru'r llwybr troed a hawlir ar Fap Swyddogol Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

## 11.0 PAPURAU CEFNDIR

**Ffeil 4/2/HT/7CC34/GarnFadryn**